Taflen weithgaredd 3 – Trin anhwylderau mêr esgyrn

Dyma ddeg disgrifiad byr o amrywiaeth o bethau a allai fynd o'u lle gyda'r corff. Cylchwch y rhai y tybiwch eu bod yn anhwylderau mêr esgyrn.

1 Darllenwch ddisgrifiadau A - G isod. Cylchwch yr anhwylderau y tybiwch y gellid eu trin drwy rodd mêr esgyrn.

Cofiwch: Mae bôn-gelloedd mewn mêr esgyrn yn cynhyrchu celloedd gwaed newydd, sy'n aeddfedu ac yna'n cael eu rhyddhau i lif y gwaed.

a Gorgynhyrchu un math o gell gwaed sy'n cymryd lle ac yn lleihau'r cynhyrchiad o fathau eraill o gelloedd gwaed.

b Clefyd firaol acíwt ac ymledol iawn a nodweddir gan smotiau coch amlwg a ddilynir gan frech.

c Llid y tiwbiau bronciol.

ch Celloedd gwaed nad ydynt yn aeddfedu neu'n gweithio'n iawn.

d Un math o gell gwaed sy'n mynd yn drechaf gan nad yw'r hen gelloedd yn marw ar gyfradd gyffredin.

dd Haint firaol y pibellau anadlu a achosir gan un o dair rhywogaeth o firws y ffliw.

e Gormod o glwcos (siwgr) yn y gwaed.

f Dim digon o haearn ar gael i gynhyrchu celloedd gwaed coch cyffredin.

ff Colli celloedd gwaed am eu bod yn rhy frau.

g Y rhydwelïau'n culhau gan arafu llif y gwaed i'r galon.

(Atebion ar dudalen 20 o'r llyfr athrawon)

2 Disgrifiwch sut gallech adnabod y rhai y gellid eu trin drwy dderbyn trawsblaniad mêr esgyrn.

3 Ceisiwch nodi'r anhwylderau / clefydau nad oeddech yn meddwl mai anhwylderau mêr esgyrn oeddynt.